OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 783

# Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Asesiadau, Awdurdodiadau Safonol ac Anghydfodau ynghylch Preswyliaeth) (Cymru) 2009

## RHAN 2

Cymhwystra i gynnal asesiadau

**Cymhwystra — cyffredinol**

**3.**—(1) Yn ddarostyngedig i ofynion ychwanegol yn rheoliadau 4 i 8 nid yw person yn gymwys i wneud asesiad, ac eithrio asesiad oedran, ond pan fo'r corff goruchwylio wedi'i fodloni fod y person hwnnw—

(a) wedi'i yswirio mewn perthynas ag unrhyw atebolrwydd a ddichon godi mewn cysylltiad â gwneud yr asesiad; a

(b) yn meddu ar y sgiliau a'r profiad perthnasol ar gyfer yr asesiad y mae i'w wneud, sy'n gorfod cynnwys y sgiliau canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt—

(i) y gallu i gyfathrebu'n effeithiol gyda golwg ar ganfod nodweddion a phriodweddau person sy'n berthnasol i anghenion y person hwnnw, a

(ii) y gallu i weithredu'n annibynnol ar unrhyw berson sy'n ei benodi i wneud asesiad ac ar unrhyw berson sy'n darparu gofal neu driniaeth i'r person y mae i'w asesu.

(2) Rhaid i'r corff goruchwylio fod wedi'i fodloni bod yna mewn perthynas â'r person—

(a) tystysgrif cofnod troseddol fanwl wedi'i dyroddi o dan adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997(**1**); neu

(b) os nad yw'r diben y mae'r dystysgrif yn ofynnol amdano yn un a ragnodir o dan adran (2) o'r adran honno, tystysgrif cofnod troseddol a ddyroddwyd yn unol ag adran 113A o'r Ddeddf honno(**2**).

**Cymhwystra i gynnal asesiad iechyd meddwl**

**4.** Mae person yn gymwys i gynnal asesiad iechyd meddwl(**3**) os yw'r person hwnnw—

(a) wedi'i gymeradwyo o dan adran 12 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983(**4**); neu

(b) yn ymarferydd meddygol cofrestredig y mae'r corff goruchwylio yn fodlon fod ganddo brofiad perthnasol mewn diagnosio neu drin anhwylder meddyliol.

(**1**) 1997 p.50. Mewnosodwyd adran 113B gan adran 163(2) o Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15).
(**2**) Mewnosodwyd adran 113A gan adran 163(2) o Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005.
(**3**) Mae asesiad iechyd meddwl yn asesiad a gynhelir o dan baragraff 35 o Atodlen A1 i'r Ddeddf.
(**4**) 1983 p.20. Diwygiwyd adran 12 gan adran 16 o Ddeddf Iechyd Meddwl 2007.

**Cymhwystra i gynnal asesiadau lles pennaf**

**5.**—(1) Mae person yn gymwys i gynnal asesiad lles pennaf(**5**) os yw'r person hwnnw—

(a) yn weithiwr proffesiynol iechyd meddwl a gymeradwywyd;

(b) yn weithiwr cymdeithasol a gofrestrwyd gyda Chyngor Gofal Cymru;

(c) yn nyrs lefel gyntaf, a gofrestrwyd yn Is-Ran 1 o Ran y Nyrsys yn y Gofrestr a gedwir o dan erthygl 5 o'r Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001;

(ch) yn therapydd galwedigaethol a gofrestrwyd yn Rhan 6 o'r gofrestr a gedwir o dan erthygl 5 o Orchymyn Proffesiynau Iechyd 2001; neu

(d) yn seicolegydd siartredig a restrir yng Nghofrestr Seicolegwyr Siartredig Cymdeithas Seicolegol Prydain ac sy'n dal tystysgrif ymarfer a ddyroddwyd gan y Gymdeithas honno.

(2) Rhaid i'r corff goruchwylio fod wedi'i fodloni hefyd fod gan y person y gallu i gymryd i ystyriaeth sylwadau unrhyw berson sydd â buddiant yn lles y person sydd i'w asesu a'r gallu i asesu perthnasedd a phwysigrwydd y sylwadau hynny wrth wneud asesiad.

**Cymhwystra i gynnal asesiad galluedd meddyliol neu asesiad cymhwystra**

**6.** Mae person yn gymwys i wneud asesiad galluedd meddyliol(**6**) neu asesiad cymhwystra(**7**) os yw'n gymwys i gynnal—

(a) asesiad iechyd meddwl; neu

(b) asesiad lles pennaf.

(**5**) Mae asesiad lles pennaf yn asesiad a gynhelir o dan baragraff 38 o Atodlen A1 i'r Ddeddf.
(**6**) Mae asesiad galluedd meddyliol yn asesiad a gynhelir o dan baragraff 37 o Atodlen A1 i'r Ddeddf.
(**7**) Mae asesiad cymhwystra yn asesiad a gynhelir o dan Atodlen A1 i'r Ddeddf.